



**Swyddogaeth Graffu
Cyngor Sir Caerfyrddin**

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21

C Y N N W Y S

| | |
|---|-----------|
| Rhagair | 3 |
| Craffu yn Sir Gaerfyrddin | 4 |
| Y Pwyllgorau Craffu | 5 |
| Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio | 5 |
| Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant | 6 |
| Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd | 7 |
| Y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau | 9 |
| Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | 10 |
| Gweithgareddau eraill yn ystod 2020/21 | 11 |
| Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu | 11 |
| Sesiynau Datblygu Aelodau | 11 |
| Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW | 11 |
| Cyd-bwyllgor Craffu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe | 12 |
| Rhwydwaith Rheolwyr Craffu Cymru | 12 |
| Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 | 12 |
| Edrych ymlaen at 2021/22 | 12 |
| Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu | 14 |
| Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2020/21 | 15 |

Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynnyddol eleni ar sut y mae'r Pwyllgorau Craffu amrywiol yn gweithio o fewn y Cyngor. Mae eleni wedi bod yn flwyddyn heriol iawn i'n dinasyddion, staff y cyngor, cynghorwyr a'n pwyllgorau. Mae Covid wedi effeithio ar bob rhan o'n bywydau ac mae hyn yn cynnwys strwythur pwyllgorau'r cyngor Am sawl mis yn ystod Covid, nid oedd pwyllgorau yn cynnal cyfarfodydd ond, ar ein cyfle cyntaf, ceisiodd y cyngor cyfan dychwelyd i ryw fath o normalrwydd cyn gynted â phosibl. Sicrhawyd normalrwydd drwy ddefnyddio TG a meddalwedd fideo-gynadledda fel Microsoft Teams/Zoom. Cyfarfu Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn rheolaidd i ofyn pryd y byddai cyfleusterau o'r fath ar gael ac, ar ôl saib byr, roedd cyfarfodydd pwyllgorau yn dychwelyd i'r arfer yn yr hydref. Cyfarfu'r Cadeiryddion a'r [Is-gadeiryddion](#) hefyd â'n Bwrdd Gweithredol i drafod y mater o barhau i graffu yn Sir Gaerfyrddin. Mae craffu ar unrhyw lefel o lywodraeth yn hanfodol, felly roeddem i gyd yn falch pan ddechreuwyd cynnal cyfarfodydd eto.

Mae'r holl Bwyllgorau Craffu wedi gweithio orau y gallent yn ystod y pandemig Covid yn 2020/21 ac maent bellach yn ystyried eu blaenraglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (2021/2022). Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ddefnyddiol i chi o'r hyn sy'n digwydd o fewn swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae gan bob pwyllgor ei faes cyfrifoldeb ei hun ond nid oes amheuaeth bod delio ag effeithiau Covid wedi cymryd llawer o amser pwyllgorau eleni, gyda phob pwyllgor yn edrych i weld sut mae eu priod adrannau o'r cyngor wedi ymdopi â'r pandemig. Nid yw hynny'n golygu bod pob pwyllgor wedi canolbwyntio'n bennaf ar Covid ond, yn sicr, daeth yn eitem sefydlog er mwyn i gynghorwyr ddeall beth oedd yn digwydd i [adrannau](#) drwy gydol y cyfnod hwn.

Hoffwn hefyd gofnodi, ar ran pob cynghorydd a phwyllgor, ein diolch i staff Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd adrannau yn brin o staff oherwydd eu bod yn helpu gyda gwaith monitro ac olrhain ac agweddau eraill ar reoli'r pandemig, ochr yn ochr â'n partneriaid ym maes iechyd a meysydd eraill o lywodraeth.

Efallai fod y gwaith o graffu wedi newid am byth, ond hoffwn ddiolch i'r Uned Gwasanaethau Democrataidd am helpu i hwyluso'r newidiadau i weithio o bell dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n rhan hanfodol o sicrhau bod craffu'n parhau yn y Cyngor. Gobeithio bod y gwaethaf o'r pandemig ar ben ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf a'r Cyngor yn dychwelyd i'r arfer.



Y Cynghorydd Giles Morgan
Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
Hyrwyddwr Craffu Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

Mae'r broses Graffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau y mae pobl a phlant Sir Gaerfyrddin yn eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Gweithredol o 10 cynghorydd sir. Mae'r broses Graffu yn rhoi cyfle i'r 64 o gynghorwyr eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn amlygu'r blaenoriaethau cyfredol, yn hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio gyda chyryff allanol. Dyma brif rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau craffu:

- Archwilio pa mor dda y mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn perfformio.
- Dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw.
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor.
- Adolygu penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol lle bo hynny'n briodol.
- Cynorthwyo'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau.
- Craffu ar strategaeth y gyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori.
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at ystyried materion a allai effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

Gall pob cynghorydd nad yw ar y Bwrdd Gweithredol gael ei benodi ar o leiaf un pwyllgor craffu, gan ddibynnu ar ei ddiddordebau neu'i arbenigedd.

Mae gan Gyngor Sir Gaerfyrddin bum Pwyllgor Craffu:-

- Cymunedau ac Adfywio
- Addysg a Phlant
- Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- Polisi ac Adnoddau
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Fel rheol, mae'r pwyllgorau'n cyfarfod 8 gwaith y flwyddyn, bob chwe wythnos, i ystyried materion ac adroddiadau a gynhwysir mewn blaenraglen waith craffu a lunnir ar ddechrau blwyddyn y cyngor. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd os bydd angen, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd arbennig neu gyfarfodydd ar y cyd i ystyried materion brys neu faterion trawsbynciol.

Mae cyfansoddiad y Pwyllgorau Craffu yn wleidyddol gytbwys i adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor cyfan, cyhyd ag y bo modd. Penodir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn cyngor a hynny am gyfnod o flwyddyn (e.e. Mai 2020 hyd Ebrill 2021). Maent hefyd yn cymryd rhan yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sy'n cwrdd bob chwarter i oruchwylio cyfeiriad strategol y broses Graffu.

Y Pwyllgorau Craffu

Adroddiadau Monitro / Eitemau Craffu Safonol

Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael yr adroddiadau monitro canlynol, yn ôl yr arfer, ac yn cytuno ar amlder a ffurf yr adroddiadau hyn:-

Adroddiadau Monitro Perfformiad – Un o brif rolau Pwyllgor Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Maent yn gwneud y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad chwe-misol, sy'n rhoi darlun cytbwys o berfformiad. Yn ogystal, mae'r pwyllgorau yn cael cynlluniau busnes a gwybodaeth ynghylch canmoliaeth a chwynion.

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf – Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael adroddiadau chwe-misol ynghylch cyllidebau cyfalaf a refeniw y gwasanaethau sydd o fewn eu cylch gwaith.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau – Yn ystod blwyddyn y cyngor, mae aelodau'r Pwyllgorau Craffu yn gwneud nifer o geisiadau am eitemau ychwanegol i'w helpu i gyflawni'u rôl graffu. Caiff adroddiadau chwarterol ac adroddiadau atgyfeirio eu llunio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar sail y camau gweithredu y gofynnir amdanynt a'r argymhellion.

Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau 13 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Tai'r Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat
- Gwasanaethau Tai gan gynnwys Tai Cyngor
- Tai Newydd
- Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw
- Adeiladau a Reolir gan y Cyngor
- Adfywio
- Datblygu Economaidd ac Adfywio Cymunedol
- Polisi Cynllunio
- Hamdden – Chwaraeon, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd
- Prosiectau Rhanbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2020/21, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Adran yr Amgylchedd a gwmpesir gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio;
- Effaith Covid-19 ar Gartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
- Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Hamdden Sir Gaerfyrddin;
- Adroddiad Effaith Covid-19 ar gyfer Adfywio;
- Gorchmynion Datblygu Lleol Canol Trefi Caerfyrddin a Rhydaman;
- Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018 -2033) Sylwadau a Ddaeth i Law a Newidiadau â Ffocws;

- Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn;
- Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 hyd at 2023/24;
- Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2021/22;
- Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) 2021-24;
- Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol;
- Strategaeth Gorfforaethol 2018/23 - Diweddariad Ebrill 2021;
- Blaen-gynllun Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin;
- Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020;
- Cynllun Busnes 2021/22 yr Adran Cymunedau;
- Dyfyniad ar Adfywio o Gynllun Busnes Adrannol y Prif Weithredwr 2021/22;
- Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2021/22.

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Ni chynhaliodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21.

Ymweliadau Safle – Oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid eu harchwilio ymhellach yn ystod 2021/22.

Sesiynau Datblygu – Er na threfnwyd unrhyw sesiynau datblygu sy'n benodol i'r gwasanaeth ar gyfer y Pwyllgor yn ystod 2020/21, cynhaliwyd nifer o sesiynau datblygu ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar dudalennau 11 a 12.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant 19 Aelod ac mae pump o'r rhain yn Aelodau cyfetholedig. Dim ond y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant sydd ag Aelodau cyfetholedig ac maent yn cynrychioli'r canlynol:

- Aelod fel Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ardal 1 – Dinefwr
- Aelod fel Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ardal 2 – Caerfyrddin
- Aelod fel Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ardal 3 – Llanelli
- Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig
- Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Ysgolion gan gynnwys Effeithiolrwydd a Mynediad i Addysg
- Arlwyo
- Cynhwysiad / Anghenion Addysgol Arbennig
- Addysg Gymunedol
- Gwasanaethau Plant
- Y Gymraeg (yn y gymuned)
- Cwricwlwm
- Llesiant

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2020/21, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Effaith Covid-19 ar Blant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin;
- Strategaeth Addysg a Gwasanaethau Plant 2020-2025;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i Fyrhau'r Broses Fewnol o Benderfynu ynghylch Trefniadaeth Ysgolion
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybie;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Ad-drefnu ac ailfodelu'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir o 4-11 i 3-11;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i Adolygu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn Ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian;
- Llesiant ac Iechyd Meddwl Staff a Disgyblion – Diweddariad Ionawr 2021;
- Heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22-2023/24;
- Gwerthusiad o Sut yr Ymatebodd Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin i Covid-19;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Model;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol y Felin;
- Diweddariad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Cwricwlwm i Gymru;
- Cynllun Busnes Adrannol.

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Ni chynhaliodd y Pwyllgor adolygiad gorchwyl a gorffen yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21.

Ymweliadau Safle – Oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau ag ysgolion yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid eu harchwilio ymhellach yn ystod 2021/22.

Sesiynau Datblygu – Er na threfnwyd unrhyw sesiynau datblygu sy'n benodol i'r gwasanaeth ar gyfer y Pwyllgor yn ystod 2020/21, cynhaliwyd nifer o sesiynau datblygu ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar dudalennau 11 a 12.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 14 o Aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol gan gynnwys Casglu Sbwriel, Glanhau Strydoedd, Cynnal a Chadw Tiroedd, Glanhau Adeiladau (gan gynnwys ysgolion, lle bo'n berthnasol), Toiledau Cyhoeddus,
- Trafnidiaeth a Gwasanaethau Stryd gan gynnwys Priffyrdd, Goleuadau Stryd, Pontydd, Rheoli Traffig, Gwasanaethau Parcio, Llwybrau Beicio a Hawliau Tramwy,
- Gorfodi Materion Amgylcheddol gan gynnwys Sbwriel, Baw Cŵn, Cerbydau wedi eu gadael ac ati.
- Gorfodi Rheolau Cynllunio
- Safonau Masnach
- Materion Diogelwch Cymunedol gan gynnwys atgyfeiriadau Troseddau ac Anhrefn (gan gynnwys pŵer i gyflwyno adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor Sir a/neu Fwrdd Gweithredol y Cyngor)
- Rheoli Plâu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd
- Cynhwysiant Cymdeithasol
- Y Gymuned
- Bioamrywiaeth
- Di-garbon

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2020/21, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Adran yr Amgylchedd a Gwmpesir gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd;
- Effaith Covid-19 ar Gartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
- Adroddiad Datganiad Blynyddol 2020 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 hyd at 2023/24;
- Strategaeth Gorrforaethol 2018/23 - Diweddariad Ebrill 2021;
- Covid-19 a'r Cynllun Diogelu Rhag Camfanteisio Ariannol;
- Cynllun Carbon Sero-net - Adroddiad Diweddar;
- Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2021/22;
- Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2021/22;
- Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021/22;
- Strategaeth Casglu Gwastraff o Dŷ i Dŷ yn y Dyfodol.

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen – Ym mis Mehefin 2019 penderfynodd y Pwyllgor gynnal adolygiad o fenter Safonau Masnach Cyngor Sir Caerfyrddin, sef "Y Cynllun Diogelu Rhag Camfanteisio Ariannol". I ddechrau, y gobaith oedd y byddai'r Grŵp yn gallu cyflwyno adroddiad terfynol i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2020, fodd bynnag, ddechrau mis Mawrth cafodd gwaith pellach ar yr adolygiad ei atal oherwydd y pandemig Coronafeirws. Ailddechreuodd y Grŵp ei gyfarfodydd yn rhithwir o fis Medi 2020 ymlaen, pan barhaodd i ddatblygu ei adroddiad terfynol a llunio ei argymhellion, gan gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2021 pan benderfynwyd bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gyfeirio at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad a'r argymhellion yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22.

Ymweliadau Safle – Oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid eu harchwilio ymhellach yn ystod 2021/22.

Sesiynau Datblygu – Er na threfnwyd unrhyw sesiynau datblygu sy'n benodol i'r gwasanaeth ar gyfer y Pwyllgor yn ystod 2020/21, cynhaliwyd nifer o sesiynau datblygu ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar dudalennau 11 a 12.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd

Y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau 13 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Monitro Perfformiad
- Cyfathrebu
- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Cynlluniau Argyfwng
- Materion Trawsbynciol o ran Craffu
- Rheoli Pobl a Pherfformiad
- Cynllunio Ariannol a Chyllid Adnoddau
- Craffu ar Strategaeth a Pholisïau Rheoli'r Trysorlys
- Caffael
- Asedau Ffisegol
- Cynnal a Chadw Adeiladau Heblaw Tai
- Technoleg Gwybodaeth
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2020/21, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Effaith Covid-19 ar Gynnal a Chadw nad yw'n ymwneud â Thai;
- Effaith Covid-19 ar TGCh a Pholisi Corfforaethol;
- Effaith Covid-19 ar y Gwasanaeth Rheoli Pobl;
- Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith - Diweddariad am y Gwasanaeth o ran Covid-19;
- Effaith Covid-19 ar Farchnata a'r Cyfryngau;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 hyd at 2023/24;
- Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd - 2021/22 hyd at 2025/26;
- Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22;
- Strategaeth Gorfforaethol 2018/23 - Diweddariad Ebrill 2021;
- Polisi Cwynion Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019/20 a Chynllun Gweithredu 2020/24;
- Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg 2019/20;
- Adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch;
- Galw i Mewn Penderfyniad Gweithredol – Tir ym Mhenprys, Llanelli;
- Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021/22;
- Cynllun Busnes Adran y Gwasanaethau Corfforaethol 2021/22;
- Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2021/22;
- Strategaeth Trawsnewid Digidol 2021/2024.

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Ni chynhaliodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2020/21. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid eu harchwilio ymhellach yn ystod 2021/22.

Ymweliadau Safle – Oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle.

Sesiynau Datblygu - Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12, y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, roedd y Pwyllgor hefyd yn bresennol yn y sesiynau canlynol:-

- Swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys – Mawrth 2021

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 14 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Gofal a Chymorth i Oedolion gan gynnwys Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Diogelu
- Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Integredig - Iechyd

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2020/21, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Sir Gaerfyrddin;
- Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Integredig; Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Argymhellion sy'n Deillio o'r Arolygiad;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 hyd at 2023/24;
- Strategaeth Gorfforaethol 2018/23 - Diweddariad Ebrill 2021;
- Effaith Covid-19 ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Sir Gaerfyrddin;
- Gofalwyr Di-dâl yn Sir Gaerfyrddin - Datblygiadau Strategol, Lleol ac sy'n gysylltiedig â Covid-19;
- Cynllun Busnes 2021/22 yr Adran Cymunedau;
- Strategaeth Anableddau Dysgu 2020/2025;
- Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Rhagfyr 2020.

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Ni chynhaliodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21.

Ymweliadau Safle – Oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid eu harchwilio ymhellach yn ystod 2021/22.

Sesiynau Datblygu - Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12, y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, cafodd y Pwyllgor hefyd y diweddariadau/cyflwyniadau canlynol oedd yn benodol i'r Pwyllgor Craffu mewn cyfarfodydd datblygu yn ystod y flwyddyn. Gofynnwyd am lawer o'r pynciau hyn ar ôl ystyried adroddiadau mewn cyfarfodydd:-

- Profion Covid (gan gynnwys profion mewn Cartrefi Gofal) - Rhagfyr 2020;
- Mynediad Cymunedol i Brydau Twym - Ionawr 2021;
- Diweddariad am y Rhaglen Trawsnewid/y Gronfa Gofal Integredig - Ionawr 2021;
- Diweddariad am y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol - Ionawr 2021;
- Cynllun Adfer Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn - Ionawr 2021;
- Tlodi Bwyd/Trechu Tlodi – Chwefror 2021;
- Gwasanaeth Cyfeillio – Mawrth 2021;
- Cysylltu â Charedigrwydd - Mawrth 2021.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Gweithgareddau Eraill yn ystod 2020/21

Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cwrdd fel arfer bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu. Ffurfiwyd y Fforwm yn 2004 ac fe'i cadeirir gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, sydd hefyd yn 'Hyrwyddwr Craffu' i'r Cyngor. Yn ystod 2020/21 cyfarfu'r Fforwm ar un achlysur.

Sesiynau Datblygu Aelodau

Cynhaliwyd y seminarau/sesiynau datblygu canlynol yn ystod 2020/21, a chafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt:-

- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd rhithwir - cynhaliwyd nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2020;
- Hyfforddiant Zoom ar gyfer cyfarfodydd rhithwir – cynhaliwyd nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2020;
- Hyfforddiant ar ap newydd Mod.gov (darparwyd gan Civica) - Hydref 2020;
- Hyfforddiant Craffu (darparwyd gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) - Hydref 2020;
- Craffu Ar-lein (darparwyd gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) - Tachwedd 2020;
- Seminar cynllunio i'r holl aelodau - Cytundebau Adran 106 ac Ymgymeriadau Unochrog - Chwefror 2021;
- Briff ynghylch Brechu Covid-19 (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) - Chwefror 2021;
- Seminar cynllunio i'r holl aelodau - Clefyd Coed Ynn a Rolau a Chyfrifoldebau'r Cyngor Sir - Mawrth 2021;
- Tyfu Sir Gaerfyrddin: Caffael Blaengar, Cadwyni Cyflenwi Bwyd a Chyfleoedd yn y Dyfodol - Mawrth 2021;
- Seminar cynllunio i'r holl aelodau – Anheddau Mentrau Gwledig – Mawrth 2021;
- Seminar cynllunio i'r holl aelodau – Gorfodi – Ebrill 2021;

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb.

Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW

Mae'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ar ERW yn grŵp rhanbarthol sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr holl Bwyllgorau Craffu Addysg ledled consortiwm ERW. Nod y Grŵp yw sicrhau bod craffu cyson ledled y rhanbarth ar faterion sydd o fewn cylch gorchwyl ERW. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod eitemau ERW a manteisir hefyd ar y cyfle i ystyried eitemau eraill sydd o ddiddordeb cyffredin ym maes addysg. Cynhelir y cyfarfodydd ar sail rota rhwng yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan o gonsortiwym ERW. Mae Cadeirydd newydd i bob Grŵp ac fel rheol ef neu hi yw Cadeirydd pwyllgor yr awdurdod lleol lle y cynhelir y Grŵp. Mae cyfarfodydd blaenorol wedi bod yn gynhyrchiol ac ystyria Estyn y Grŵp yn gryfder i'r consortiwm. Caiff y cyfarfodydd eu gweinyddu gan Dîm Craffu Dinas a Sir Abertawe. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant wedi mynychu dau gyfarfod o'r grŵp rhanbarthol hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin gyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020.

Cyd-bwyllgor Craffu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe

Mae Cyd-bwyllgor Craffu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn bwyllgor craffu rhanbarthol sy'n cynnwys 12 aelod anweithredol o bedwar Awdurdod Cyfansoddol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2018 i adolygu a chraffu ar Gyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Nod y Cyd-bwyllgor Craffu yw sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus o ran penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor ac unrhyw un o'i is-bwyllgorau a chyrff cysylltiedig. Mae hyn yn ategu gwaith craffu Awdurdodau Lleol ar brosiectau unigol o'r Fargaen Ddinesig sy'n rhan o'u maes gorchwyl. Cynhelir y Cyd-bwyllgor Craffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Cyd-bwyllgor Craffu yn cwrdd bob chwarter. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Tachwedd 2018. Mae tri aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Craffu, gan gynnwys yr Hyrwyddwr Craffu. Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21.

Rhwydwaith Rheolwyr Craffu Cymru

Oherwydd y pandemig Coronafeirws, canslwyd cyfarfodydd Rhwydwaith Craffu Cymru ar gyfer 2020/21.

Yn ystod 2021/22, bydd y Rhwydwaith yn canolbwyntio ar y pynciau canlynol:-

- Craffu a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys Craffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r dyletswyddau newydd o ran perfformiad a llywodraethu;
- Rhannu ymarfer (Adroddiadau blynyddol craffu; mesur effaith craffu; a chynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol wrth graffu);
- Gwybodaeth a sefydlu ar gyfer aelodau craffu newydd ar ôl etholiadau.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae blaenraglenni gwaith ar gyfer yr holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar dudalennau craffu'r Awdurdod. Penodir Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu yn unol â Rhan 6 o'r Mesur.

Edrych ymlaen at 2021/22

Rhaid i bob Pwyllgor Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac adroddiad blynyddol sy'n amlinellu gwaith y flwyddyn flaenorol. Mae'r holl adroddiadau blynyddol ar gyfer 2020/21 wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Ar ddechrau bob blwyddyn y cyngor, mae'r aelodau'n trafod y pynciau sy'n flaenoriaeth i'w Pwyllgor ac yn datblygu blaenraglen waith ddrafft. Yn ogystal, mae'r gwaith o gynllunio blaenraglen waith yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried Sesiynau Datblygu Aelodau posibl a phynciau craffu y gellid ymchwilio iddynt ymhellach. Mae'r blaenraglenni gwaith a'r adroddiadau blynyddol bellach ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol difrifol ac mae angen iddo barhau i nodi a chyflawni rhagor o arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd. Un o lwyddiannau allweddol y Cyngor fyddai cynnal a chyflwyno gwelliannau i wasanaethau ac, ar yr un pryd, bodloni'r targedau gofynnol o ran arbedion. Bydd y pwyllgorau craffu yn parhau i gyfrannu a herio mewn modd adeiladol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i oresgyn yr heriau hyn.

Byddid yn parhau i graffu ar bolisiâu, cynlluniau a pherfformiadau allweddol, a'u monitro. Mae polisiâu a chynlluniau 'troswaol' y Cyngor yn cynnwys y canlynol: yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella, yr Amcanion Llesiant, y Cynllun Heneiddio'n Dda a'r Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r polisi, strategaeth a pherfformiad corfforaethol yn dod o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau. Fodd bynnag, mae cynlluniau ac amcanion o'r fath hefyd yn pontio rhwng meysydd craffu eraill. Lle bo'n briodol, bydd yr holl Bwyllgorau Craffu yn ystyried elfennau o'r cynlluniau a'r polisiâu sy'n berthnasol i'w cylch gwaith. Ceisir dod o hyd i atebion arloesol i leihau dyblygu a gwastraff, megis gwneud mwy o ddefnydd o waith cyd-bwyllgorau.

Dyma rai meysydd allweddol eraill y bydd y pwyllgorau yn rhoi sylw iddynt:-

Cymunedau ac Adfywio – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin; Cytundebau Adran 106; Taliadau Gwasanaeth Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti 2022/23; Safonau Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022–25); Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2020/21; Ymgynghori ynghylch Cyllideb Refeniw 2022/23-2024/25; Ymgynghoriad ar Gyllideb y Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd.

Addysg a Phlant - Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid; Cynllun Gweithredu Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY); Sesiynau Ymgysylltu ag Ysgolion; Presenoldeb – Cynllun Adfer Addysg; Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg; Cyfraddau Atgyfeirio Uwch y Gwasanaethau Plant; Llesiant ac Iechyd Meddwl/Covid-19; Mynd i'r afael ag unigolion NEET (heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) a Heriau Cyllido; Trefniadau Gwella Ysgolion; Effeithiolrwydd Model Newydd ERW; Ymgynghori ynghylch Cyllideb Refeniw 2022/23-2024/25.

Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd – Cynllun Cyflawni ar gyfer y Dyfodol ynghylch Rheoli Ansawdd Aer; Llawlyfr ynghylch Cynnal a Chadw Priffyrdd; Ymateb i Lifogydd; Strategaeth Cerbydau Trydan; Diweddariad am Flaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd; Adroddiad ar Gyfleusterau Cyhoeddus; Ymgynghori ynghylch Cyllideb Refeniw 2022/23-2024/25; Cynllun Gweithredu Carbon Sero-net.

Polisi ac Adnoddau - Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin a Diweddariad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; Polisi Teledu Cylch Cyfyng; Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol am 2020-21; Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Iaith Gymraeg; Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth; Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Trawsnewid Digidol (a Thechnoleg); Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion; Adroddiadau Monitro Absenoldeb Salwch; Adroddiad Blynyddol Trawsnewid i wneud Cynnydd; Ymgynghori

ynghylch Cyllideb Refeniw 2022/23-2024/25; Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd 2022/23-2026/27; Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23.

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd – Diweddariad Cyffredinol Iechyd Meddwl; Datganiad Sefyllfa Covid-19; Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Adroddiad Blynyddol ynghylch Amcanion Llesiant; Adroddiad Blynyddol - Diogelu; Cynlluniau Busnes Adrannol; Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Cynllun Gweithredu Dementia; Diweddariad Gofal Preswyl (Mewnol ac Annibynnol); Ymgynghori ynghylch Cyllideb Refeniw 2022/23-2024/25; Diweddariad Iechyd Meddwl (gan gynnwys effaith Covid); Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc (y diweddaraf am y Fforwm Amlasiantaeth); Diweddariad Awtistiaeth; Diweddariad Gofal Cartref; Diweddariad Gofalwyr; Strategaeth Anableddau Dysgu 2021-26; Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol; Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal ynghylch Camddefnyddio Sylweddau.

Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys:-

- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi
- Rheoli'r gwaith o gydlynu a datblygu'r blaenraglenni gwaith ym maes Craffu ar y cyd ag Aelodau'r pwyllgorau Craffu
- Rheoli a chydlynu'r gwaith o adolygu Craffu, gan gynnwys y gwaith o redeg grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes Craffu, llunio adroddiadau law yn llaw â'r grwpiau a helpu i weithredu a monitro'r adolygiadau sydd wedi eu cwblhau
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys rhaglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch e-bost: craffu@sirgar.gov.uk

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2020/21

Polisi ac Adnoddau

Y Cyngorydd Giles Morgan
Cadeirydd
(Dyffryn y Swistir)
Annibynnol

Y Cyngorydd Gareth John
Is-gadeirydd
(De Tref Caerfyrddin)
Plaid Cymru

Cymunedau ac Adfywio

Y Cyngorydd Fozia Akhtar
Cadeirydd
(Llwynhendy)
Llafur

Y Cyngorydd Gareth Thomas
Is-gadeirydd
(Yr Hendy)
Plaid Cymru

Addysg a Phlant

Y Cyngorydd Darren Price
Cadeirydd
(Gors-las)
Plaid Cymru

Y Cyngorydd Edward Thomas
Is-gadeirydd
(Llandeilo)
Annibynnol

Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Y Cyngorydd John James
Cadeirydd
(Porth Tywyn)
Llafur

Y Cyngorydd Aled Vaughan Owen
Is-gadeirydd
(Gors-las)
Plaid Cymru

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Y Cyngorydd Gwyneth Thomas
Cadeirydd
(Llangennech)
Plaid Cymru

Y Cyngorydd Ieuan Davies
Is-gadeirydd
(Llanybydder)
Annibynnol